# TRAFOD

**Testun sy'n ystyried manteision ac anfanteision pwnc, cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau, weithiau gan ddod i gasgliad.**

## MATH O FFURF – TRAETHAWD, ERTHYGL, ADRODDIAD A BLOG

**Nodwch ddwy ochr y ddadl – y manteision a'r anfanteision**

**Defnyddiwch baragraffau – paragraff newydd pan fyddwch yn cyflwyno pwynt neu agwedd wahanol**

**Defnyddiwch dystiolaeth i gefnogi'r dadleuon – data, graffiau, diagramau a mapiau**

**Dyfynnwch yr hyn mae pobl wedi'i ddweud**

**Defnyddiwch yr amser presennol – "Mae'n amlwg bod"**

**Dewch i gasgliad ar y diwedd, sef eich barn derfynol chi, ar ôl ystyried yr holl ddadleuon gwahanol**

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

# TRAFOD

*Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur*

GwE
Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# PA FATH O DESTUN YW HWN?

**Testun sy'n cynnwys rhesymau a manylion er mwyn dangos pam a sut, sy'n cynnwys yn aml nodi achosion a chanlyniadau a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.**

| STRWYTHUR Y TESTUN | GWYBODAETH AM IAITH | CANLLAWIAU YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol:<br><br>• Adroddiad<br>• Erthygl<br>• Pamffled<br>• Traethawd<br>• Blog<br>• Erthygl olygyddol | Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys:<br><br>• Defnydd o'r amser presennol e.e. *"mae","dywed"," esbonia"*<br>• Defnydd o ferfau amhersonol: *"gwelir"*, "amlygir", "sonnir"<br>• Trydydd person y ferf e.e. *"gall', 'gwêl', 'awgryma'*<br>• Defnyddio cysyllteiriau e.e. *oherwydd, o ganlyniad, felly, ar y naill law, ar y llaw arall*<br>• Geirfa mynegi barn e.e. *'fy nghasgliad i yw', 'yn fy marn i'* | Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn gellid:<br><br>• Cyflwyno dwy ochr y ddadl yn gytbwys.<br>• Defnyddio tystiolaeth a rhoi rhesymau.<br>• Cyflwyno'r pwnc.<br>• Defnyddio barn bersonol i lunio casgliad ar y diwedd.<br>• Defnyddio data, graffiau, diagramau a mapiau i egluro safbwyntiau ymhellach.<br>• Dyfynnu wrth gyflwyno safbwyntiau'r ddwy ochr. |

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# YSGRIFENNU ER MWYN TRAFOD

Wrth ysgrifennu er mwyn trafod byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw cyflwyno o leiaf ddwy safbwynt ac, o bosibl, dod i gasgliad personol. Wrth drafod bydd angen i chi **gyflwyno'r** pwnc, cyn mynd ati i drafod **gwahanol** safbwyntiau ac yna **grynhoi** eich barn eich hun. Byddai'n ddefnyddiol cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r safbwyntiau. Gallai hwn fod yn ddata, yn lluniau neu ddiagramau. Cryfder arall fyddai dyfynnu'r hyn mae pobl sy'n coleddu'r safbwyntiau wedi ei ddweud. Gallech ddyfynnu eu geiriau nhw'n uniongyrchol neu aralleirio'r hyn maent wedi'i ddweud. Bydd rhaid i chi fod yn **gytbwys** gan roi'r un faint o sylw i'r gwahanol safbwyntiau. Peidiwch â dangos tuedd, dim ond cyflwyno'r hyn mae pobl eraill yn ei ddweud am y pwnc. Dim ond ar y diwedd y gallwch chi roi eich barn eich hun.

**BYDDWCH YN GYTBWYS** – dylech geisio rhoi'r un sylw i bob safbwynt a gyflwynir.

**BYDDWCH YN DREFNUS** – mae trefn arbennig i drafodaeth – cyflwyno'r pwnc, cyflwyno'r safbwyntiau, crynhoi eich barn.

**BYDDWCH YN GLIR** – cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno pob safbwynt yn glir ac yn deg. Er mwyn gwneud hyn rhaid:

- trefnu safbwyntiau gyda'i gilydd – er mwyn sicrhau bod eich cynulleidfa yn deall yr hyn mae gwahanol bobl yn ei gredu;
- cyflwyno ffeithiau fel tystiolaeth – er mwyn egluro'r syniadau haniaethol mewn modd mwy ymarferol;
- defnyddio cysyllteiriau – er mwyn llunio brawddegau mwy cymhleth sy'n gallu egluro safbwyntiau'n fanwl.

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# CYSYLLTEIRIAU

## TRAFOD

Ar un

Cred rhai . . .

Ond ar y llaw arall . . .

Yn ôl . . .

Felly . . .

Oherwydd . . .

Yn yr un modd . . .

Cytunaf . . .

Yn fy marn i . . .

Anghytunaf . . .

Un ddadl . . .

Tra . . .

Pe . . .

Os . . .

Ond . . .

*Walkers' Wood*

*Gallech chi ddadlau mai neges amgylcheddol sydd i'r gerdd 'Walkers' Wood'. Drwy gwestiynau ei fab mae'r tad yn cyfeirio at harddwch byd natur, at y goeden gollen yn colli ei dail ac yn 'rhannu ei gofidiau gyda'r lli', dail y ffawydd 'run lliw â cheiniog newydd' yn cael eu colli o bwrs y goeden, dail y dderwen 'fel darnau o jig-sô'. Mae'n ddarlun rhamantus o ogoniant natur. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r harddwch naturiol a lliwiau'r hydref gwêl y mab y paced o 'Walkers' Crisps' yn 'wyrdd a glas,' yn 'sgleinio yn y mwd'. Pwysleisia mor ddiofal y gall pobl fod, yn anharddu ac yn difetha eu cynefin naturiol.*

*Ar y llaw arall, gallech chi ddweud mai symbol o ddylanwad estron yw'r 'paced o 'Walkers' Crisps'. Dydy o ddim i fod yn y goedwig. Mae wedi newid y goedwig er gwaeth. Mae'r bardd yn awgrymu mai dyma mae twristiaid yn ei wneud i'w ardal ef hefyd. Maent yn newid enwau Cymraeg hynafol, fel Coed Llugwy i Walkers' Wood:*

> *'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,*
> *Ond 'Walkers' Wood' sydd yn y 'Betws Guide'.'*

*Gwelir y newid enw, fel y gollwng sbwriel, fel arwydd o ddiffyg parch tuag at yr ardal a'i thraddodiadau.*

*Teimlaf fod y ddwy neges yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae'n ddyletswydd arnom i amddiffyn a gwarchod ein cymunedau rhag unrhyw beth sy'n mynd i'w difetha, boed hynny yn amgylcheddol, neu'n ieithyddol a diwylliannol.*

Pa fath o ysgrifennu yw hwn? Eglurwch pam eich bod yn dweud hyn.

Casglwch y geiriau cadarnhaol a'r geiriau negyddol a geir yn y paragraff cyntaf.

Pa ymadrodd yn yr ail baragraff sy'n awgrymu safbwynt gwahanol?

Beth yw agwedd awdur y darn hwn?

Pa amser o'r ferf sy'n cael ei defnyddio yma? Nodwch enghreifftiau.


Pa nodweddion arddull sy'n cael eu dyfynnu yn y paragraff cyntaf? Eglurwch nhw.

Labelwch y tri pharagraff i ddangos nodweddion y math o ysgrifennu.

Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd yma i gadarnhau'r safbwynt?

GwE Tuag at Ragoriaeth · YSGOL BOTWNNOG · YSGOL DYFFRYN OGWEN · YSGOL TRYFAN · Ariennir gan Lywodraeth Cymru · Funded by Welsh Government

# TRAFOD



# Ysgolion cynradd bach neu fawr sydd orau?

Pa nodweddion welwch chi sy'n nodweddiadol o ffurf trafodaeth.

Ar ba ochr mae'r dadleuon hyn?

Lluniwch gyflwyniad a chasgliad i'r drafodaeth.

Pa ochr sy'n defnyddio'r dadleuon hyn?

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mae llawer o blant ym mhob blwyddyn felly rydych chi'n gallu cael ffrindiau sy'n addas i chi. | Dydych chi ddim yn dod i adnabod plant o wahanol oedran. |
| Mae adnoddau helaeth mewn ysgol gynradd fawr fel arfer. | Efallai fod dim llawer o le os ydy'ch ysgol chi'n ysgol boblogaidd iawn. |
| Mae llawer o athrawon sydd â diddordebau gwahanol, e.e. cerddoriaeth, yr amgylchedd, chwaraeon, drama... | Mae'r dosbarthiadau'n gallu bod yn fawr iawn a does dim cymaint o sylw unigol. |
| Mae digon o blant i gael pob math o weithgareddau - pêl-droed, côr, parti dawnsio... | Weithiau, yr un plant sy'n cael eu dewis i wneud popeth, a does dim cymaint o gyfle i blant eraill wedyn. |
| Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn arbenigo ar bwnc, e.e. hanes, felly rydych chi'n cael eich dysgu gan arbenigwr. | Dydy'r pennaeth ddim yn eich dysgu chi, felly dydych chi ddim yn dod i'w adnabod/i'w hadnabod yn dda. |
| Dydy'r cam o'r ysgol gynradd fawr i'r ysgol gyfun ddim yn un mawr iawn. | Rydych chi'n gallu teimlo 'ar goll' mewn ysgol gynradd fawr. |
| Manteision eraill? | Anfanteision eraill? |

Pa rai ydych chi'n meddwl yw'r dadleuon cryfaf? Trafodwch.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mae pawb yn adnabod ei gilydd. | Does dim digon o blant gwahanol i ddod i'w hadnabod. |
| Rydych chi'n dod i adnabod plant o wahanol oedran, nid eich blwyddyn chi'n unig. | Efallai bod llai o adnoddau - e.e. cyfrifiaduron, neuadd, offer campfa. |
| Rydych chi'n cael sylw unigol da. | Os oes sawl blwyddyn yn y dosbarth, efallai dydy'r gwaith ddim bob amser yn addas i chi. |
| Mae cyfle i gymryd rhan ym mhopeth achos bod dim cymaint o blant - e.e. chwaraeon, cwis llyfrau, Eisteddfod yr Urdd. | Efallai nad oes digon o blant i gael tîm pêl-droed neu rygbi, neu barti llefaru. |
| Rydych chi'n dod i adnabod yr athrawon yn dda iawn achos maen nhw'n eich dysgu chi am sawl blwyddyn. | Os dydych chi ddim yn hoffi'r athro neu'r athrawes, rhaid i chi aros yn ei d/ddosbarth am sawl blwyddyn. |
| Mae ysgolion bach yn rhan bwysig iawn o'r ardal a'r gymuned. | Mae ysgolion bach yn ddrutach i'w rhedeg nag ysgolion mawr. |
| Mae'r plant hynaf yn yr ysgol yn cael helpu a chymryd cyfrifoldeb. | Mae symud o ysgol gynradd fach i'r ysgol gyfun yn gallu bod yn sioc i'r system. |
| Manteision eraill? | Anfanteision eraill? |

Pa fath o destun a pha ffurf yw'r darn hwn? Pam?

Pa dechnegau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi'r dadleuon ar y ddwy ochr?

O dan bwyntiau bwled crynhowch y dadleuon sy'n cael eu defnyddio yma o blaid Masnach Deg a'r dadleuon yn erbyn.

Pa sylw yn y paragraff olaf sy'n awgrymu rhagfarn?

Fy nhro i oedd dod â choffi ar gyfer paned yn y gwaith. Picio i'r archfarchnad wnes i a dyna benbleth! Yn lle rhuthro am y math arferol dechreuais i edrych o ddifri a sylwi ar y logo Masnach Deg. Maen nhw'n dweud wrtha' i bod pobl y Deyrnas Unedig yn gwario £1.3 biliwn ar nwyddau Masnach Deg erbyn hyn. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu ers 18 mlynedd ac mae mwy na 4,500 o wahanol gynnyrch yn ein siopau ond ydy Masnach Deg yn deg go iawn?

Bwriad syml oedd i'r cynllun – sicrhau bod ffermwyr mewn gwledydd tlawd yn cael prisiau uwch am eu cynnyrch, cael amodau gwaith teg, datblygu cynaliadwyedd a thegwch i ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu. Mae'r ffermwyr, ar ôl talu am ymuno â'r cynllun, yn siŵr o gael isafswm pris am eu cynnyrch, pris na all syrthio'n is na phris y farchnad. Maen nhw hefyd yn cael swm i'w fuddsoddi yn eu cymuned. Mae cefnogwyr y system yn gallu rhoi enghreifftiau lu o sut mae hyn yn dod â budd i unigolion. Un enghraifft yw Tomy Mathew sy'n ffermwr cnau a sbeisys yn Kerala yn India. Ar gyfnod gwael mewn ffermio yn India, rhwng 1992 a 2006 roedd pris cnau cashew yn 62 rupees y cilo, sy'n cyfateb i 71 ceiniog, ond oherwydd cymorthdal gan Fasnach Deg roedd yn debyn 75 rupees, sy'n cyfateb i 86 ceiniog. Roedd hi'n werth talu'r 3,000 doler y flwyddyn roedd y gymuned yn ei dalu i ymuno â'r cynllun. Gallant ddefnyddio'r cymorthdal i brynu peiriannau fel tractor, sy'n arwain at wella cynhyrchiant. Mae'n swnio'n ddelfrydol tydy?

Ond dydy pawb ddim yn cytuno! Mae rhai economegwyr yn dadlau y gallai ffermwyr gael prisiau gwell o fod yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol neu drwy gynhyrchu cynnyrch o safon uwch. Mae nwyddau Masnach Deg fel arfer yn costio mwy, ac mae'r mudiad ei hun yn cyfaddef mai 50% o'r arian ychwanegol hwnnw, ar y mwyaf, sy'n cael ei wario ar gynlluniau cymunedol, ac mae rhai beirniaid yn dadlau bod y ffigwr yn nes at ddim! Ni welwyd unrhyw ffigyrau cadarn sy'n profi bod ffermwyr yn cael prisiau gwell dan gynllun Masnach Deg. Dim pob ffermwr sy'n gallu ymuno â'r cynllun. Os yw'r ffermwyr yn hynod o dlawd neu'n byw mewn rhannau pellennig allan nhw ddim ymuno â'r cynllun, na thalu'r tâl i ymuno. Mae rhai yn dadlau bod y cynllun yn gwneud mwy o ddrwg i ffermwyr gwirioneddol dlawd. Hyd yn oed os ydy ffermwyr y cynllun yn cael ychydig geiniogau'n fwy am eu cynnyrch, maen nhw'n dal yn gorfod gweithio'n galed a dydy'r cymorth ddim yn ddigon i'w codi o'u tlodi'n aml. Pe baent yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros safon eu cynnyrch eu hunain mae rhai'n dadlau y byddai ganddynt well syniad sut i wella a chael mwy o arian amdano.

Wnes i erioed feddwl bod prynu coffi yn mynd i achosi cymaint o gur pen! Mae bywyd yn rhy fyr i yfed coffi sâl ond eto mae'r cydwybod yn pigo. Beth wnes i yn y diwedd? Er yr amheuon sy'n cael eu codi, rhaid i mi gyfaddef mai'r logo glas a gwyrdd enillodd yn y pen draw. Fy nadl i ydy ei bod yn well gwneud rhywbeth na dim o gwbl!

Pa fath o iaith a ddefnyddir? Chwiliwch am enghreifftiau.


Chwiliwch am y cysylltеiriau a ddefnyddir yn y paragraff hwn ac ystyriwch beth yw eu heffaith.


Ailysgrifennwch gasgliad a fyddai'n cyflwyno'r safbwynt arall.

TRAFOD


Manteision


Anfanteision




Casgliad

# Gwe geiriau o blaid ac yn erbyn





## Y Gêm Genedlaethol?

Pa un yw gêm genedlaethol Cymru? Rygbi wrth gwrs! Mae pawb yn gwybod hynny! Pan welwch chi faint o bobl sydd ar strydoedd Caerdydd ar ddiwrnod gêm rygbi rhyngwladol mae'n amlwg i bawb. Mae'r Cymry'n cefnogi eu tîm rygbi cenedlaethol bob amser. Ar Hydref 15ed 2011 am 8 o'r gloch y bore daeth 60,000 o bobl i Stadiwm y Mileniwm i wylio Cymru'n chwarae'n erbyn Ffrainc. Does dim byd yn anarferol yn hynny byddech chi'n meddwl, ond roedd y gêm yn cael ei chwarae 11,500 o filltiroedd i ffwrdd yn Seland Newydd! Dim ond sgrin oedd yn y stadiwm. Mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw rygbi i'r Cymry. Mae dyddiau arbennig, fel pan mae'r tim yn ennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, yn adegau pan mae'r Cymry'n falch o wisgo'r crys coch.


Mae mwy o hwyl i'w gael wrth gefnogi rygbi. Does dim angen cadw cefnogwyr y timau ar wahân, fel mewn pêl droed. Mae pawb yn ffrindiau, yn cefnogi eu tim ond eto'n gyfeillgar efo pawb arall. Mae hynny'n beth braf i'w weld. Gall y cefnogwyr weiddi dros bob chwaraewr pan fo'n chwarae i Gymru hyd yn oed os yw'n chwarae i dîm nad ydynt yn eu cefnogi ar ddydd Sadwrn arferol.

Dyna pam mai rygbi yw'r gêm genedlaethol a byddai'n barti Calan Gaeaf i'w gofio pe bai Sam Warburton yn codi Cwpan y Byd ar Hydref 31ain eleni!




GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynllunio Trafodaeth





GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Y GÊM GENEDLAETHOL

CYFLWYNO'R PWNC

DADLEUON RYGBI

DADLEUON PEL DROED

## EICH BARN CHI

# trafod

Cyflwyniad i'r pwnc

1 Dadleuon un ochr

2 Dadleuon yr ochr arall

ar y llaw arall

eto,

ond

Casgliad

# TAFLEN GYMORTH

## CYFLWYNIAD

Rydw i'n mynd i sôn am . . .
Mae llawer yn sôn am ddwy gêm bwysig yng Nghymru . . .
Wrth i gystadleuaeth Cwpan y Byd nesu . . .

## RYGBI

Mae pobl sy'n cefnogi rygbi yn dweud . . .

Un rheswm yw . . .

Rheswm arall yw . . .

Peth arall i'w ystyried yw . . .

## PÊL DROED

Ar y llaw arall . . .

Mae cefnogwyr pêl droed yn dweud . . .

. . . oherwydd . . .

Rheswm arall yw . . .

## CASGLIAD

Ar ôl edrych ar y dadleuon . . . rydw i'n meddwl . . . credaf i . . .
mae'n amlwg bod . . . felly . . . oherwydd . . . I gloi . . .

Mae llawer o bobl yn mynd i gemau rygbi yng Nghaerdydd.

Daeth 60,000 o bobl i weld Cymru'n chwarae rygbi ar sgrin yn Stadiwm y Mileniwm yn 2011.

Mae cefnogwyr rygbi yn falch o wisgo’r crys coch.

Mae mwy o hwyl wrth gefnogi rygbi.

Mae cefnogwyr y ddwy ochr yn ffrindiau mewm gemau rygbi.

Mae mwy o bobl yn chwarae pêl droed ym mhob man fel yn y parc, yr ysgol a’r stryd.

Dechreuodd rygbi yn Lloegr.

Pêl droed oedd y Cymry yn ei chwarae erstalwm.

Mae llawer mwy o bobl yn mynd i weld gemau pêl droed na gemau rygbi.

Mae Stadiwm y Mileniwm wedi bod yn llawn yn ystod gemau pêl droed Cymru.

Mae'r tim pêl droed cenedlaethol yn y safle uchaf erioed.